Y GYMDEITHAS
DDEINTYDDOL

Ionawr 2015

Annwyl Gyfeillion,

Dim ond gair bach i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd ac i ddatgan fy ngwerthfawrogiad i chi i gyd am gefnogi'r Gymdeithas Ddeintyddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Penderfynodd y pwyllgor beidio cynnal cinio 'Dolig eleni oherwydd profwyd y llynedd ei bod yn adeg prysur ar bawb a sawl aelod gyda phartion eraill yn cyd-daro â chinio'r Gymdeithas. Yn hytrach, trefnir cinio Santes Dwynwen ar **Nos Wener, 23ain Ionawr** ym mwyty Wal, Caernarfon.

Mae gennym galendr llawn iawn ar eich cyfer unwaith eto gyda'r flwyddyn yn cychwyn ar nodyn rhamantus gyda'r cinio Santes Dwynwen, yna tipyn o ddiwylliant yn ein cinio Gŵyl Ddewi gyda siaradwr gwadd, darlith yn ystod tymor y gwanwyn ac, wrth gwrs, ein taith gerdded. Bydd y flwyddyn yn cael ei choroni gyda'n cynhadledd flynyddol a fydd yn cael ei chynnal yng Nghaerdydd ym mis Hydref.

Edrychaf ymlaen i'ch gweld yn amryw o weithgareddau'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn.

Cofion gorau,

Stephen J Keen
Cadeirydd